**CFA16 Dysgu Cymraeg Moragnnwg**

Senedd Cymru | Welsh Parliament

**Pwyllgor Diwylliant, Cyfathrebu, y Gymraeg, Chwaraeon, a Chysylltiadau Rhyngwladol | Culture, Communications, Welsh Language, Sport, and International Relations Committee**

**Cymraeg i bawb? | Cymraeg for all?**

Ymateb gan: Dysgu Cymraeg Moragnnwg | Evidence from: Dysgu Cymraeg Moragnnwg

**1. Beth yw'r prif rwystrau sy'n atal defnydd ehangach o'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg, a beth allai helpu i newid hyn?**

Agwedd negyddol tuag at yr iaith

Siaradwyr Cymraeg yn defnyddio Saesneg yn awtomatig

Siaradwyr Cymraeg wedi colli hyder

Nid oes digon o gyfleoedd i siaradwyr Cymraeg ddefnyddio'r iaith

**2. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o'r iaith, a chynyddu hyder o ran ei defnyddio, mewn ardaloedd lle mae defnydd o'r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

Sefydliadau yn trefnu digwyddiadau dwyieithog drwy sicrhau bod staff yn gallu siarad Cymraeg

Mwy o ganolfannau Cymraeg - dim ond un sydd yn ardal Morgannwg sef ym Merthyr

Mwy o arian ar gyfer trefnu digwyddiadau i ddysgwyr

Cynlluniau siarad ym mhob tref

Siopau lleol a siopau mawr yn cynnig gwasanaeth dwyieithog

Tai bwyta Cymraeg

Chwaraeon / Hyfforddwyr dwyieithog

Digwyddiadau Cymraeg fel yr Eisteddfod yn dod i'r ardal

Rheolwyr busnesau lleol yn dysgu Cymraeg gan ryddhau eu staff i ddysgu hefyd

Gwersi codi hyder o fewn y gweithle ar gyfer siaradwyr sydd wedi cael addysg Gymraeg

**3. A allwch chi rannu enghreifftiau o fentrau neu weithgareddau llwyddiannus sydd wedi annog defnydd o’r Gymraeg mewn ardaloedd lle mae defnydd o’r iaith yn gyfyngedig?**

Cynllun siarad - paru siaradwyr Cymraeg a dysgwyr

Cynllun - Hapus i Siarad - siopau lleol yr ardal yn hyrwyddo defnydd o'r iaith.

Eisteddfod yn dod i Bontypridd -

Cynllun gwaddol yr Eisteddfod - sefydlu sesiynau ymarfer siarad a gwersi wyneb yn wyneb yn y gymuned - grant gan y Ganolfan Dysgu Cymraeg

**4. Pa fath o ofodau a chyfleoedd a allai annog mwy o ddefnydd o’r iaith, a chynyddu hyder ynddi, mewn ardaloedd lle mae defnydd o’r iaith o ddydd i ddydd yn gyfyngedig?**

Sefydlu cynllun siarad dros y we

Duolingo

Mynychu gwersi codi hyder ar lein

Adnoddau digidol y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol

**5. Pa effaith, yn eich barn chi, y mae digwyddiadau diwylliannol fel Eisteddfodau cenedlaethol neu wyliau Cymraeg yn ei chael ar y defnydd o’r Gymraeg, yn enwedig mewn ardaloedd sydd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Anhygoel - cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd eisiau dysgu Cymraeg er mwyn ei defnyddio ar y maes.

Cynnydd yn nifer y dysgwyr sydd am gyrraedd rhuglder yn gyflym drwy ymuno a chyrsiau dwysach

Siaradwyr yr iaith sydd wedi symud i ffwrdd ond eisiau dychwelyd i'r ardal ar gyfer yr Eisteddfod.

Dysgwyr sydd eisiau cystadlu yn yr Eisteddfod.

Cyngor Sir yn hyrwyddo defnydd o'r iaith

Agwedd bositif tuag at yr iaith

Ymwelwyr sy'n  siarad Cymraeg

Staff yn dysgu Cymraeg er mwyn croesawu ymwelwyr sy'n siarad Cymraeg

**6. Sut y gellid addasu neu wella'r digwyddiadau hyn (boed yn rhai mawr neu fach o ran maint) i wasanaethu cymunedau â llai o siaradwyr Cymraeg yn well?**

Trefnu mwy o ddigwyddiadau Cymraeg mewn mannau poblogaidd fel parciau / meysydd chwaraeon / cyngherddau mewn stadiwm lleol

**7. A oes unrhyw faterion eraill yr hoffech dynnu sylw'r Pwyllgor atynt mewn perthynas â dull Llywodraeth Cymru o gefnogi'r Gymraeg mewn ardaloedd â llai o siaradwyr Cymraeg?**

Diolch i chi am godi hyn er mwyn deall yr heriau yn well . Bydd y gwaith hyn yn helpu sefydlu dyfodol mwy positif o ran defnydd y Gymraeg.